**Cofnodion**

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

### Dydd Mawrth 18 Hydref 2016, 12:30

### Ystafell Gynadledda 24, Tŷ Hywel

## Pwnc: 'Gwaith Pontio'r Cenedlaethau ar Ddementia' a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Yn bresennol**

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Dai Lloyd AC; Angela Burns AC; Rhun ap Iorwerth AC; Amy Kitcher, Morgan Griffith-David (Cymdeithas Alzheimer) Ryland Doyle (swyddfa Mike Hedges AC); Craig Lawton (swyddfa Suzy Davies AC); Charlotte Knight (swyddfa Lynne Neagle AC); Nancy Cavill (swyddfa Julie Morgan AC); Joan Brown (Cymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu); Nigel Hullah (DEEP); Siobhan Conway (RPysch)

**Croeso a chofnodion**

Croesawodd Lynne Neagle AC bawb i'r cyfarfod. Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd arnynt.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Etholwyd Lynne Neagle yn gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol gan yr Aelodau a oedd yn bresennol.

**Gwaith pontio'r cenedlaethau**

Soniodd Joan Brown o Gymuned Gyfeillgar i Ddementia Aberhonddu am y prosiect pontio'r cenedlaethau y mae hi'n helpu i'w redeg rhwng Ysgol Llanfaes a Chartref Gofal Trenewydd. Mae wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y Gwobrau Dementia-gyfeillgar sy'n cael eu cynnal ar 30 Tachwedd yn Llundain. Mae'r prosiect arloesol newydd ehangu i gynnwys dwy ysgol newydd a chartrefi gofal.

**Sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r grŵp**

A ellir gwneud ymwybyddiaeth o ddementia yn rhwymedigaeth statudol i ysgolion?
Lynne i gyflwyno cwestiynau: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ymwybyddiaeth o ddementia mewn ysgolion?
A
Pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod pobl sydd â dementia yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Strategol Dementia?

**Cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth 13 Rhagfyr, 12.30 – 13.25, Ystafell Gynadledda 21, Tŷ Hywel. Pwnc: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Gweithredu Strategol Dementia.